



Adroddiad Blynyddol 2017/18

Cynghorydd Nia Jeffreys

Ward Porthmadog
(Dwyrain)



Plaid Cymru

Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd rwyf wedi canolbwyntio ar waith yn y ward a helpu pobl gyda'u problemau.
- Rwyf yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd bob mis ble gall pobl ddod i'm gweld. Rwyf hefyd yn rhagweithiol yn cysylltu â phobl i gynnig help pan rwyf yn clywed am unrhyw broblemau.
- Rwyf wedi trefnu ymweliadau safle gyda swyddogion y cyngor i edrych ar gasglu sbwriel yn y ward, diogelwch ffyrdd a pharcio. Rwyf wedi bod yn llwyddiannus i ddelio gyda materion fel diogelwch ffyrdd, draenio manau parcio, casgliadau sbwriel, tai a llawer mwy.
- Rwyf yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda phobl yn y ward drwy'r cyfryngau cymdeithasol a newyddleni.
- Rwyf wedi ymgymryd â gwaith llywodraethwr Ysgol Eifion Wyn ac rYsgol Eifionydd ac wyf yn ddi-olchgar i'r athrawon a'm cyd lywodraethwyr am y croeso cynnes a'r gefnogaeth. Trwy weithio gyda Phennaeth Eifion Wyn roeddem yn gallu cael y Cyngor i roi mesurau yn eu lle i geisio mynd i'r arfael gyda problem y Gwylanod yn yr ysgol.
- 'Rwyf wedi parhau gyda fy ngwaith gwirfoddol yn y gymuned
- Rwyf yn Is-Gadeirydd Caru Port ac rwyf yn ddiolchgar i bawb oedd yn rhan o drefnu'r Goleuadau Nadolig a gweithgareddau Haf Hwyl yr Harbwr
- Rwyf ar bwylgor Yr Wylan ac rydym wedi sicrhau incwm newydd i'r papur bro.
- Rwyf yn dal yn aelod o grŵp codi arian Marie Curie sydd wedi codi miloedd o bunnoedd eleni.
- Rwyf yn falch o gael bod yn rhan o brosiect Dementia Go. Yn ddiweddar roedd noson yng nghwmni Beti George yn llwyddiant mawr i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.
- Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r heddlu lleol a'r PCSOs i drafod pryderon pobl Porthmadog am e.e. cyffuriau a goryrru yn y dref.
- Rwyf yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac yn codi materion lleol yn rheolaidd gyda hwy.

Eleni byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar helpu pobl Porthmadog – bydd fy nghymorthfeydd yn parhau ar y dydd Sadwrn cyntaf o'r mis o 11 y bore tan 12 yn Llyfrgell Porthmadog.

Cyfarfodydd Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu:

- Rôl y Gymraeg yn y Gymuned 31/01/18
- Polisi Gosod a Digartrefedd 22/11/17
- Cyfrifoldebau Tai a Phartneriaethau yng Ngwynedd 15/11/17
- Rhaglen Arweinyddiaeth (Aelodau Etholedig) 17/10/17
- Egwyddorion Addysg 20/09/17 Wyneb i wyneb
- Sgiliau Cwestiynu Craffu 05/09/17 Wyneb i wyneb
- Arwain a chyfrannu at Bwyllgorau Effeithiol 19/07/17
- Ffordd Gwynedd 05/07/17
- Sesiynau Ymgynghorol 14/06/17
- Cyllideb y Cyngor 07/06/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Cod Ymddygiad 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Technoleg 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Democratiaeth 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Cefnogaeth i Aelodau 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Gwybodaeth 09/05/17